

CBAC Lefel 2

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Canllaw Addysgu



Cynnwys

1. Cyflwyniad a nodau	3
2. Trosolwg o'r fanyleb	4
3. Deilliannau dysgu	6
4. Uned 216 (Grŵp Gorfodol)	8
4.1 Cyflwyniad i'r canllawiau ar gyfer yr uned	8
4.2 Rhaglen astudio	9
4.3 Paratoi at yr arholiad ysgrifenedig	28
5. Sut mae Uned 216 yn cysylltu ag elfen ymarfer Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant a'r Craidd	29
6. Rhestr termau	36
7. Deddfwriaeth ddefnyddiol	43
8. Adnoddau i athrawon	45

1. Cyflwyniad a nodau

Mae cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori CBAC, a gafodd ei achredu gan Cymwysterau Cymru i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2019, ar gael i bob ysgol a choleg yng Nghymru ar gyfer dysgwyr ôl 16 oed.

Bydd y cymhwyster hwn yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2020, a'r graddau fydd Llwyddiant, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

Mae holl gynnwys y pwnc i'w weld yn y fanyleb sydd ar wefan y Consortiwm.

<https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/>

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw helpu darlithwyr ac athrawon i gyflwyno manyleb y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori, a rhoi canllawiau ar ofynion y cymhwyster a'r prosesau asesu. **Ni fwriedir iddyn nhw fod yn gyfeirbwynt cynhwysfawr**, ond yn hytrach bwriedir iddyn nhw gefnogi darlithwyr ac athrawon i ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion eu dysgwyr eu hunain yn eu sefydliadau eu hunain. Fodd bynnag, at y fanyleb y dylent droi gyntaf bob amser. Mae'r Canllawiau Addysgu yn awgrymu rhaglen astudio a allai gael ei defnyddio fel sail i ddatblygu cynllun gwaith.

Yn ogystal â'r Canllawiau Addysgu hyn a'r fanyleb, mae'r gefnogaeth ganlynol ar gael i ganolfannau.

- y canllaw gweinyddu i ganolfannau
- diweddariadau e-bost
- dadansoddi canlyniadau arholiadau
- adroddiadau uwch arholwyr ar bob cyfres o arholiadau
- adroddiadau cymedrolwyr canolfannau ar unedau a gaiff eu hasesu'n fewnol ym mhob cyfres
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- cyn bapurau cwestiynau a chynlluniau marcio
- adnoddau digidol rhad ac am ddim
- y canllaw arfer da i leoliadau gwaith
- adolygu arholiadau ar-lein
- deunyddiau asesu enghreifftiol.

Gall athrawon hefyd gysylltu'n uniongyrchol â swyddog pwnc y cymhwyster. Bydd y swyddog hwn yn gallu ateb cwestiynau am ofynion y fanyleb. Mae'r manylion cyswllt i'w gweld ar y wefan.

2. Trosolwg o'r fanyleb

Mae'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn galluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o'r pwnc a'r sector, mewn amryw o leoliadau, yng nghyd-destun gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Ar ôl cwblhau'r cymhwyster hwn, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn:

- deall, ac yn gallu defnyddio'n ymarferol, yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- deall, ac yn gallu defnyddio'n ymarferol, dulliau plentyn-ganolog mewn perthynas â gofal, chwarae, dysgu a datblygiad
- cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol at y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant drwy eu hymarfer eu hunain
- gallu myfyrio ar ymarfer i barhau i wella
- deall swyddi a'u swyddogaethau yn y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- gallu defnyddio eu gwybodaeth mewn cyd-destunau gwahanol yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- gallu defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol yn eu swydd.

Mae'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn gymhwyster unedol sy'n golygu y gellir cynnal asesiadau fesul cam i raddau.

Strwythur

I ennill y cymhwyster **Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori**, rhaid i ddysgwyr gyflawni cyfanswm o, o leiaf, **40** o gredydau, fel a ganlyn:

- rhaid ennill 25 o gredydau o Grŵp Gorfodol 1
- rhaid ennill o leiaf 3 o gredydau o Grŵp Dewisol A
- gellir ennill y credydau sy'n weddill o unedau o fewn Grwpiau Dewisol A, B neu C
- rhaid ennill o leiaf 5 o gredydau o Grŵp Gorfodol 2.

Mae'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn cael ei asesu drwy asesiad mewnol (Grŵp Gorfodol 1) ac asesiad allanol (Grŵp Gorfodol 2). Mae'r Canllawiau Addysgu hyn yn canolbwyntio ar Grŵp Gorfodol 2.

Mae Grŵp Gorfodol 2 yn cynnwys un uned (216). Mae dau brif faes testun ar gyfer yr uned hon:

- iechyd, llesiant a datblygiad plant, 0-19 oed a ffactorau sy'n cefnogi iechyd, llesiant a datblygiad
- rôl a gwerth y gwasanaethau gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd sydd ar gael yng Nghymru i gefnogi anghenion gofal, iechyd, llesiant a datblygiad plant.

Bydd yr uned hon yn galluogi dysgwyr i estyn eu gwybodaeth am ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant drwy:

- atgyfnerthu ac estyn gwybodaeth am iechyd, llesiant a datblygiad plant, 0-19 oed, gan gynnwys ffactorau sy'n cefnogi iechyd, llesiant a datblygiad
- meithrin gwybodaeth am rôl a gwerth gwasanaethau gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd sydd ar gael yng Nghymru i gefnogi anghenion gofal, iechyd, llesiant a datblygiad plant.

Bydd hyn yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r holl gynnwys a addysgir ar sail eu gallu i wneud y canlynol:

- Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.
- Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.
- Dadansoddi a myfyrio ar agweddau ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Er bod yr asesiad ar gyfer yr uned hon yn asesu'r cynnwys sy'n benodol i'r uned hon, rhaid rhoi cyfle i ddysgwyr greu cysylltiadau rhwng elfennau o bob rhan o'r cwrs astudio llawn, ac i ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r elfennau hynny.

3. Deilliannau dysgu

Bydd yr asesiadau allanol yn targedu'r deilliannau dysgu yn unol â'r pwysoliadau canlynol:

	DD1	DD2	DD3	DD4
%	20-25%	25-30%	15-20%	28-33%
Marc	14-17	17-21	10-14	19-23

Mae'r holl ddeilliannau dysgu wedi'u rhestru ar dudalennau 116 i 123 o'r fanyleb.

Er mwyn helpu dysgwyr i ddeall gofynion cwestiynau arholiadau allanol, bydd y berfau gorchymyn canlynol yn cael eu defnyddio:

Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori	
Gorchymyn	Gofynion yr ymateb
Dadansoddwch	Archwiliwch fater yn fanwl/sut mae'r rhannau'n berthnasol i'r cyfan, esboniwch a dehonglwch
Cymhwyswch	Defnyddiwch eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ddamcaniaeth neu gysyniad a chysylltu hynny â chyd-destun penodol
Aseswch	Lluniwch farn wybodus
Cymharwch	Nodwch ac esboniwch elfennau tebyg a gwnewch sylwadau arnynt
Ystyriwch	Darllenwch y wybodaeth a roddwyd ac ymatebwch iddi
Cyferbynnwch	Nodwch ac esboniwch wahaniaethau a gwnewch sylwadau arny nhw
Diffiniwch	Rhowch union ystyr
Disgrifiwch	Rhowch briodweddau/prif nodweddion neu grynodedb/manylion effaith, h.y. yr hyn sydd wedi newid/digwydd
Trafodwch	Archwiliwch fater yn fanwl/sut mae'r rhannau'n berthnasol i'r cyfan, esboniwch a dehonglwch
Archwiliwch	Ymchwiliwch yn agos ac yn fanwl
Esboniwch	Rhowch fanylion a rhesymau dros sut a pham mae rhywbeth fel y mae
Gwerthuswch	Lluniwch farn drwy bwysu a mesur tystiolaeth er mwyn dod i gasgliad
Rhowch	Darparwch/enwch/dewiswch/nodwch ffeithiau neu enghreifftiau byr (o ffynhonnell benodol neu drwy ddwyn i gof)
Nodwch (Identify)	Fel yn achos 'Rhowch'
Eglurwch	Defnyddiwch ddiagram neu eiriau i ddangos yn glir sut mae cysyniad neu ddamcaniaeth yn gweithio mewn cyd-destun penodol

Dehonglwch	Troschwch y wybodaeth a roddwyd i ffurf arall
Cyfiawnhewch	Ategwch achos gan ddefnyddio tystiolaeth/dadl
Rhestrwch	Fel yn achos 'Rhowch'
Enwch	Fel yn achos 'Rhowch'
Amlinellwch	Nodwch y prif bwyntiau/rhowch ddisgrifiad byr neu nodwch y prif nodweddion
Argymhellwch	Cyflwynwch gynnydd yn seiliedig ar resymau/tystiolaeth
Adlewyrchwch	Gwerthuswch a/neu ystyriwch
Nodwch (State)	Fel yn achos 'Rhowch'
Awgrymwch	Rhowch syniad, rheswm neu ddull gweithredu posibl
Crynowch	Dewiswch a chyflwynwch y prif bwyntiau (heb fanylion)
Dangoswch	Fel ar gyfer 'Eglurwch'
Defnyddiwch	Cymhwyswch y wybodaeth a ddarparwyd at ddamcaniaeth neu gysyniad penodol

Cwestiynau enghreifftiol

DD1

Mae Thomas, sy'n 1 oed, yn chwarae'n unigol yn y feithrinfa.

1. Disgrifiwch **ddau** gyfnod chwarae arall sy'n cefnogi datblygiad plant.
2. Nodwch **dri** ffactor dylid rhoi ystyriaeth iddyn nhw wrth gynllunio darpariaeth barhaus.
3. Nodwch **ddau** arwydd sy'n dangos bod y feithrinfa yn hybu datblygiad cyfannol.

DD2

1. Trafodwch sut mae cael mynediad i dabled electronig yn gallu cael effaith gadarnhaol **ac** effaith negyddol ar ddysgu a datblygiad plentyn.
2. Esboniwch sut mae chwarae mewn pwll tywod yn gallu helpu i ddatblygu **dwyl** sgil ddeallusol (gwybyddol).
3. Disgrifiwch y fenter *Dechrau'n Deg*.

DD3

1. Dadansoddwch sut mae gweithgareddau fel chwarae mewn pwll tywod yn gallu cefnogi datblygiad cyfannol plentyn.

Mae mam Iwan yn ystyried dau ddewis ar gyfer ei addysg.

Opsiwn 1: Ysgol 3–19 cyfrwng Cymraeg newydd fawr yn agos i'w cartref.

Opsiwn 2: Addysg yn y cartref.

2. Aseswch y manteision posibl byddai **pob** opsiwn yn gallu eu cael ar iechyd, llesiant a datblygiad Iwan yn ystod y cyfnod hollbwysig hwn yn ei fywyd.

4. Uned 216

4.1. Cyflwyniad i'r canllawiau ar gyfer yr uned

Dylai'r Rhaglen Astudio yn adran 4.2 o'r canllaw hwn gael ei hystyried o fewn y fframwaith canlynol.

Dylai'r profiad dysgu hybu cyfleoedd ymarferol a damcaniaethol i wella gwybodaeth a galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i gyflawni amrywiaeth o swyddi o fewn y sector yn effeithiol.

Dylai'r uned wybodaeth gael ei chyflwyno gan diwtor cymwys a phrofiadol. Fodd bynnag, gall mewnbwn y tiwtor gael ei ategu gan fewnbwn arbenigol o'r sector er mwyn rhoi hyfforddiant mwy dwys i ddysgwyr yn y cyd-destunau canlynol:

- addysg
- meithrinfeydd statudol a phreifat
- rhaglen bydwreigiaeth Dechrau'n Deg
- ymweliadau iechyd
- oedi datblygiadol.

Er mai uned ddamcaniaethol sy'n seiliedig ar wybodaeth yw hon, mae'n bwysig bod dysgwyr yn sylweddoli bod y wybodaeth a'r ddealltwriaeth y byddan nhw'n eu datblygu drwy'r cymhwyster hwn yn berthnasol i fyd gwaith ac y gallan nhw eu cymhwyso mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae cyfleoedd dysgu cymhwysol, y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol/coleg, yn rhoi profiadau 'bywyd go iawn' i ddysgwyr.

Mae lleoliadau gwaith pwrpasol yn rhan hanfodol o'r profiad dysgu. Dylai rhaglen gyfoethog o gynnwys a addysgir yn yr ystafell ddosbarth dynnu sylw at syniadau a chysyniadau y gall dysgwyr roi cynnig arnyn nhw yn eu lleoliad gwaith. Bydd hyn yn ei dro yn gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o agweddau damcaniaethol.

4.2 Rhaglen Astudio (yn seiliedig ar tua 6 awr yr wythnos)

Mae'r rhaglen astudio hon yn cynnig un ffordd bosibl o gyflwyno'r cwrs. Nid yw'n rhagnodol a gall canolfannau strwythuro'r cwrs yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau unigol. Os bydd mwy nag un athro yn cyflwyno'r cwrs, gallan nhw deilwra'r rhaglen i'w harbenigeddau unigol. Lle y bo'n bosibl, mae'r gweithgareddau yn y canllawiau hyn yn defnyddio dull dysgu cymhwysol a phwrpasol.

Grŵp Gorfodol 2 Uned 216: Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
Grŵp Gorfodol 2 Uned 216 Deilliant Dysgu 1 MPA 1.1	1	<p>Datblygiad a thwf corfforol Cyflwyno amcanion yr uned a'r broses asesu. Trafod y ffaith ei bod hi'n bwysig bod gan ymarferwyr wybodaeth gadarn am ddatblygiad plant.</p> <p>Trafod y pum maes yn natblygiad plant a phatrymau twf a datblygiad cyffredinol. Canolbwyntio ar y gwahaniaethau rhwng twf a datblygiad corfforol. Meithrin dealltwriaeth o brofion sgrinio i fabanod newydd-anedig a gynigir yn yr ysbyty/yn ystod ymweliadau â'r cartref ac mewn clinigau babanod; gan gynnwys taldra, pwysau, cylchedd y pen, profion datblygiadol ar gyfer y clyw, y golwg a'r synhwyrâu, ynghyd â thrafodaeth am y disgwyliadau a'r cerrig milltir cydnabyddedig ar gyfer plant rhwng 0 a 12 mis.</p> <p>Mynd ati i esbonio a meithrin gwybodaeth am sgiliau echddygol bras a sgiliau echddygol manwl a'r ffordd mae gallu yn newid drwy gydol plentyndod drwy amrediad o grwpiau oedran, 0-19 oed e.e. cropian, taflu pêl, dringo'r grisiau ac ati.</p> <p>Datblygu'r amrediadau twf plant disgwylidig o ran pwysau a thaldra.</p>	<p>Siartiau canraddol twf corfforol.</p> <p>Patrymau twf disgwylidig ar gyfer plant 1-5 oed.</p> <p>Cardiau deintyddol i'w trefnu ar ffurf llinell amser sy'n dangos oedrannau cyfartalog ar gyfer torri a cholli dannedd.</p>	<p>Defnyddio siartiau canraddol twf corfforol i fesur taldra a phwysau gwahanol blant rhwng 1 a 5 oed.</p> <p>Gweithgaredd trefnu cardiau i ddatblygu dealltwriaeth o ddisgwyliadau ynghylch oedran plant pan fyddant yn torri ac yn colli eu dannedd a'r camau yn y broses honno.</p>

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
		<p>Gweithgaredd: Dysgwyr yn defnyddio siartiau canraddol twf corfforol i fesur taldra a phwysau gwahanol blant rhwng 1 a 5 oed. Rhoi enghraifft i'r myfyrwyr o siart canraddol i fesur cyfradd twf bechgyn a merched er mwyn asesu'r gwahaniaethau rhwng: bechgyn a merched (rhywedd), grwpiau oedran gwahanol, patrymau a dilyniannau twf disgwylidig.</p> <p>Meithrin dealltwriaeth o ddatblygiad a phatrymau twf disgwylidig dannedd, o'r oedrannau ieuengaf pan fydd dannedd cyntaf yn torri i ddatblygiad y cilddannedd parhaol cyntaf a'r broses ddilynol o dorri a cholli dannedd.</p> <p>Gweithgaredd: Gall dysgwyr feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth, gan ddefnyddio gweithgaredd trefnu cardiau i greu llinell amser o ddisgwyliadau ar gyfer datblygiad dannedd.</p> <p>Sicrhau bod dysgwyr yn ymgyswrtu â'r ffordd y mae plant yn datblygu'n gorfforol. Dysgwyr i lunio siart ar sail oedran gan ddefnyddio'r patrymau twf disgwylidig a dilyniannau yn natblygiad corfforol plant 0-19 oed sy'n ymwneud â newidiadau i'r corff, gan ystyried proses fiolegol twf ac aeddfedu o'u genedigaeth tan eu bod yn oedolion ifanc.</p>		

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
<p>Grŵp Gorfodol 2</p> <p>Uned 216</p> <p>Deilliant Dysgu 1</p> <p>MPA 1.2</p>	2	<p>Datblygiad deallusol (gwybyddol)</p> <p>Trafod â dysgwyr y patrymau cyffredinol ym maes datblygiad deallusol (gwybyddol), o ganlyniad i dwf a phrofiad, sy'n datblygu gallu unigolyn i ddarganfod a deall cysyniadau newydd, datblygu sgiliau rhesymu a meddwl, y gallu i drefnu, cysylltu a llunio cysyniadau ac ati.</p> <p>Trafod manteision datblygu a gwella arddulliau dysgu a synhwyrâu plant drwy ddysgu drwy amrywiaeth o ddulliau e.e. drwy roi gwybodaeth iddynt, arbrofi, archwilio a gwneud synnwyr o'r byd ac ati; drwy archwilio amrywiaeth o adnoddau datblygiad deallusol sy'n seiliedig ar bob maes h.y. creadigrwydd, dychymyg, llythrennedd, rhifedd, rhesymeg, cof, datrys problemau a rhesymu.</p> <p>Gweithgaredd:</p> <p>Gwaith grŵp. Dysgwyr yn dewis maes penodol i ddatblygu cynllun gweithgareddau ar gyfer datblygiad deallusol yn seiliedig ar y meysydd gweithredu canlynol yn eu lleoliad, gan gynnwys y meysydd canlynol:</p> <p>Yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • creadigrwydd a dychymyg – chwarae rôl, ysgrifennu creadigol ac ati • llythrennedd a rhifedd – mapio, dilyniannu ac ati • rhesymeg a'r cof – trefnu, dosbarthu ac ati • datrys problemau a rhesymu – rhagweld, graffiau ac ati. <p>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o bob maes drwy gynnal asesiad cyfoedion o'r gweithgareddau ar ôl iddyn nhw gael eu cwblhau, gall myfyrwyr greu gwerthusiad yn seiliedig ar bob cynllun. Caiff y cynlluniau eu diwygio ar sail adborth a'u rhoi ar waith yn y lleoliad. Gall pob myfyriwr werthuso ei gynllun gweithgareddau ei hun a rhoi adborth i'r dosbarth.</p>	<p>Amrywiaeth o adnoddau ar gyfer datblygiad deallusol.</p> <p>Cynllun gweithgareddau.</p>	<p>Dysgwyr yn dewis cynllun gweithgareddau ar gyfer datblygiad deallusol i'w roi ar waith yn eu lleoliad.</p> <p>Asesiad cyfoedion o'r gweithgareddau ar ôl iddyn nhw gael eu cwblhau, ar ffurf gwerthusiad. Diwygio'r cynlluniau ar sail adborth a'u rhoi ar waith yn y lleoliad. Gall pob myfyriwr werthuso ei gynllun gweithgaredd ei hun a rhoi adborth i'r dosbarth.</p>

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
<p>Grŵp Gorfodol 2 Uned 216</p> <p>Deilliant Dysgu 1 MPA 1.3</p>	<p>3</p>	<p>Datblygiad iaith a lleferydd</p> <p>Trafod â dysgwyr y patrymau cyffredinol yn natblygiad iaith a lleferydd, y gwahanol gamau ar gyfer caffael sgiliau iaith a dulliau cyfathrebu amgen.</p> <p>Trafod â dysgwyr yr amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu a'r ystodau oedran cyffredinol sy'n gysylltiedig â phob cam.</p> <p>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r amrywiaeth o weithgareddau sy'n cefnogi datblygiad iaith a sgiliau cyfathrebu e.e. chwarae rôl, byrddau diddordebau, posau, ffuglen a llyfrau ffeithiol, rhannu ac ailadrodd storïau ac ati gan ddefnyddio adnoddau gweledol a chyffyrddol.</p> <p>Trafod â dysgwyr a rhoi enghreifftiau o themâu a ddefnyddir mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar i ddatblygu deilliannau dysgu â ffocws.</p> <p>Gweithgaredd:</p> <p>Mewn grwpiau, datblygu syniadau am thema i'w haddysgu mewn lleoliad blynyddoedd cynnar.</p> <p>Gall thema blynyddoedd cynnar gynnwys gweithgareddau amrywiol i annog dysgwyr i gyfathrebu mewn ffyrdd gwahanol drwy realiti neu ffantasi gan gefnogi iaith fynegiannol, cyfleoedd i wrando ac ymateb, profiadau cyffyrddol, symudiadau, adrodd storïau, synau ac ati.</p> <p>Mae angen i thema blynyddoedd cynnar gynnwys yr holl sgiliau canlynol ar gyfer plant o alluoedd gwahanol ac sydd ar gyfnodau amrywiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfnodau cyn-ieithyddol ac ieithyddol – synau lleisiol a datblygiad iaith • Llythrennedd – gwneud marciau cynnar a meithrin y gallu i ddarllen ac ysgrifennu • Cyfathrebu – dulliau geiriol a dieiriau • Derbyngar a mynegiannol – deall a ffurfio brawddegau • Dwyieithrwydd/amlieithrwydd – siarad neu ysgrifennu dwy iaith neu fwy <p>Gweithio fel grŵp i werthuso'r cyfleoedd dysgu a awgrymir yn seiliedig ar sgiliau ar gyfer plant o alluoedd gwahanol ac sydd ar gyfnodau amrywiol a rhoi adborth i'r dosbarth er mwyn cynnal trafodaeth gyffredinol.</p>	<p>Enghreifftiau o themâu a ddefnyddir mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.</p> <p>Adnoddau gweledol a chyffyrddol i gefnogi datblygiad.</p>	<p>Datblygu syniadau am thema i'w haddysgu a'i harchwilio mewn lleoliad blynyddoedd cynnar, gan gynnwys meysydd penodol ar gyfer plant o alluoedd gwahanol ac sydd ar gyfnodau amrywiol.</p> <p>Rhoi adborth i'r dosbarth ar syniadau a themâu a ddatblygwyd mewn cynlluniau.</p> <p>Gwerthuso'r cyfleoedd dysgu a awgrymwyd mewn grwpiau ac fel dosbarth.</p>

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
<p>Grŵp Gorfodol 2 Uned 216</p> <p>Deilliant dysgu 1 MPA 1.4</p>	4	<p>Datblygiad emosiynol Dylai dysgwyr wybod a deall y patrymau cyffredinol ym maes datblygiad emosiynol.</p> <p>Dylai dysgwyr wybod a deall eu rôl i gefnogi hunan-barch, annibyniaeth a sgiliau cymdeithasol.</p> <p>Datblygu syniadau ymlyniad a bondio a'u pwysigrwydd er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer datblygiad emosiynol plant.</p> <p>Trafod damcaniaethwr sy'n ymwneud â datblygiad emosiynol e.e. Maslow, Carl Rogers, Bowlby ac ati. Ystyried syniadau cyfoes ar gyfer datblygu perthnasoedd cadarnhaol, gwydnwch emosiynol a chymdeithasol a sgiliau sy'n arwain at annibyniaeth.</p> <p>Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pa wahaniaethau y byddech chi'n disgwyl eu gweld yn anghenion emosiynol plant 2 oed? Cymharwch eich disgwyliadau â'ch disgwyliadau ar gyfer plant 6 oed. Beth yw'r rhesymau dros y gwahaniaethau hyn? • Pa weithgareddau allwch chi eu hawgrymu a fydd yn helpu plant i fynegi eu teimladau? Rhestrwch ac esboniwch eich dewisiadau. • Pa fath o weithgareddau fyddai'n gallu helpu i wella perthnasoedd plant a'u helpu i ddod yn fwy gwydn? Rhestrwch ac esboniwch eich dewisiadau. <p>Trafod â dysgwyr ei bod hi'n bwysig datblygu gallu plentyn i deimlo a mynegi emosiynau drwy ddefnyddio strategaethau cadarnhaol. Datblygu dealltwriaeth o strategaethau iechyd meddwl cadarnhaol i hybu hunanddelwedd a hunaniaeth drwy amrywiaeth o weithgareddau sy'n ceisio hybu meddylfryd ac agweddau cadarnhaol.</p>	<p>Taflenni ffeithiau ar ddamcaniaethwyr.</p> <p>Taflen gwestiynau ar gyfer gweithgaredd.</p>	<p>Myfyrwyr i ddatblygu gweithgaredd sy'n briodol i oedran y plant i'w roi ar waith yn eu lleoliad, sy'n seiliedig ar ddatblygu hunan-barch a hunanddelwedd gadarnhaol.</p> <p>Sesiwn holi ac ateb yn y dosbarth.</p> <p>Ymchwilio i anhwylderau ymlyniad.</p>

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
		<p>Gweithgaredd: Ymchwilio i'r anhwylderau ymlyniad canlynol mewn grwpiau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Anhwylder ymlyniad anataliedig (<i>Disinhibited attachment disorder (DAD)</i>) • Anhwylder ymgysylltiad cymdeithasol anataliedig (<i>Disinhibited social engagement disorder (DSED)</i>) • Anhwylder ymlyniad ymatebol (<i>Reactive attachment disorder (RAD)</i>). <p>Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth yw arwyddion a symptomau'r anhwylderau ymlyniad? • Pa effaith allai'r anhwylderau hyn ei chael ar ddatblygiad emosiynol plant? 		

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
<p>Grŵp Gorfodol 2 Uned 216</p> <p>Deilliant dysgu 1 MPA 1.5</p>	5	<p>Datblygiad cymdeithasol Dylai dysgwyr wybod a deall y patrymau cyffredinol ym maes datblygiad cymdeithasol.</p> <p>Datblygu'r cerrig milltir o ran datblygiad cymeithasol gan alluogi dysgwyr i ddeall ac adnabod y cyfnodau chwarae a'u pwysigrwydd er mwyn cefnogi datblygiad cymdeithasol cadarnhaol a strategaethau gwydnwch.</p> <p>Drwy gyfres o arsylwadau/astudiaethau achos/delweddau gweledol neu fideos, trafod â dysgwyr yr agweddau gwahanol ar chwarae, a'r cerrig milltir disgwylidig ar hyd y cyfnodau datblygu amrywiol e.e. unigol, arsylwadol, cysylltiadol, cyfochrog a chydweithredol.</p> <p>Gweithgaredd: Datblygu siart sy'n dangos y cyfnodau datblygu disgwylidig ac oedrannau disgwylidig plant.</p> <p>Datblygu'r syniad o gynllunio gweithgareddau a threfnu cyfleoedd chwarae er mwyn annog ymddygiad cadarnhaol, drwy gysondeb, hybu hunan-barch, adnabod ymddygiadau anodd yn gynnar a defnyddio nodau a therfynau.</p> <p>Gweithgaredd: Mewn grwpiau, trafod, gwneud nodiadau a rhoi adborth ar brofiadau o ymddygiad negyddol a defnyddio gwobrau a chanmoliaeth ar gyfer disgwylidig o ran ymddygiad cadarnhaol.</p> <p>Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • O'ch profiad chi, beth yw'r peth mwyaf heriol am ymddygiad neu ddatblygu hunanreolaeth plant? • Sut mae eich ysgol yn annog annibyniaeth ac yn helpu plant i wneud penderfyniadau moesol? Pa welliannau neu addasiadau byddai'n bosibl eu gwneud i'r dull gweithredu hwn? <p>Pa mor gyson yw eich lleoliad o ran gosod nodau a therfynau ar gyfer ymddygiad plant?</p>	<p>Arsylwadau/astudiaethau achos/delweddau gweledol neu fideos</p>	<p>Datblygu siart sy'n dangos y cyfnodau datblygu disgwylidig ac oedrannau disgwylidig plant.</p> <p>Nodiadau/adborth llafar ar brofiadau o ymddygiad negyddol a defnyddio gwobrau a chanmoliaeth ar gyfer disgwylidig o ran ymddygiad cadarnhaol.</p> <p>Sesiwn holi ac ateb yn y dosbarth.</p>

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
<p>Grŵp Gorfodol 2 Uned 216</p> <p>Deilliant dysgu</p> <p>MPA 1.6</p>	<p>6</p>	<p>Natur gyfannol datblygiad plant, 0-19 oed Datblygu dealltwriaeth o'r cysyniad o ddatblygiad cyfannol, canolbwyntio ar sut mae datblygiad corfforol, deallusol (gwybyddol), ieithyddol, emosiynol a chymdeithasol yn gallu rhyng-gysylltu.</p> <p>Trafodaeth ar amrywiaeth o agweddau biolegol ac anfiologol ar ddatblygiad a fyddai'n gallu effeithio ar ddatblygiad cyfannol plentyn.</p> <p>Sicrhau bod y drafodaeth/gwaith addysgu yn canolbwyntio ar eneteg, rhianta a sut y gall genynnau enciliol a threchol effeithio ar ddatblygiad cyfannol.</p> <p>Cwestiynau dosbarth enghreifftiol: Sut rydyn ni'n datblygu nodweddion ein rhieni/gofalwyr? Ydy ein nodweddion yn seiliedig ar natur neu fagwraeth?</p> <p>Gweithgaredd: Tasg grŵp ac adborth Beth rydych chi wedi'i ddatblygu fel nodwedd fiolegol uniongyrchol gan eich rhieni/gofalwyr? neu Sut mae profiadau neu ddylanwadau yn eich bywyd (anfiologol) wedi datblygu eich personoliaeth?</p> <ul style="list-style-type: none"> Sut mae'n bosibl datblygu personoliaeth? Drwy brofiadau cyfannol neu brofiadau unigol? <p>Trafod y ffordd rydym yn dysgu, ac ystyried arddulliau dysgu gwahanol e.e. clywedol, gweledol, cinesthetig ac ati a'r ffordd rydym yn datblygu'r rhain er mwyn dysgu ar gyfer digwyddiadau neu brofiadau gwahanol mewn bywyd e.e. ymarferion, adolygu, ymarfer, arholiadau ac ati.</p> <p>Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sut mae gweithgareddau, rhyngweithiadau a phrofiadau yn hybu dysgu? Beth yw'r ffordd orau o gofio neu atgyfnerthu gwybodaeth, o'ch profiad chi? <p>Gweithgaredd: Ymchwilio i'r Cyfnod Sylfaen: Canolbwyntio ar y saith maes dysgu a datblygu gweithgaredd sy'n cynnwys y saith maes dysgu er mwyn cefnogi datblygiad cyfannol y plentyn.</p>	<p>Cynllun gweithgareddau gyda mynediad i'r rhyngwyd.</p>	<p>Canolbwyntio ar effaith datblygu gweithgareddau cyfannol i blant. Creu gweithgaredd i'w gynnal yn eich lleoliad.</p> <p>Sesiwn holi ac ateb yn y dosbarth.</p> <p>Tasg grŵp ac adborth.</p> <p>Ymchwilio i'r Cyfnod Sylfaen, dysgwyr i ganolbwyntio ar y saith maes dysgu a datblygu gweithgaredd i gefnogi datblygiad cyfannol y plentyn.</p>

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
<p>Grŵp Gorfodol 2 Uned 216</p> <p>Deilliant dysgu 2</p> <p>MPA 2.1</p>	7	<p>Sut gall amgylcheddau ac adnoddau helpu datblygiad cyfannol plant</p> <p>Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae amrywiaeth o amgylcheddau sy'n adlewyrchu fframweithiau presennol yn cefnogi datblygiad cyfannol. Trafod yr amrywiaeth o amgylcheddau dysgu e.e. dwyieithog/amlieithog, hamdden a chymunedol, dan do ac awyr agored ac ati.</p> <p>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch sut y gall ffactorau amrywiol effeithio ar ddatblygiad a sut y gall y rhain fod yn niweidiol i ddysgu e.e. diffyg adnoddau chwarae dan do, awyr agored ac ati.</p> <p>Gweithgaredd: Ymchwiliad ar gyfer grŵp o ddysgwyr. Datblygu syniadau gan ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth sydd ganddynt yn barod o amgylcheddau chwarae dan do ac awyr agored. Creu diagram corryn drwy drafod ble mae plant yn chwarae, yn dysgu ac yn rhyngweithio'n gymdeithasol yn eu lleoliad gwaith. Rhoi adborth i'r dosbarth a gwerthuso manteision yr amgylcheddau a drafodwyd.</p> <p>Cwestiynau dosbarth enghreifftiol: Pa adnoddau sydd ar gael yn eich lleoliad a pham bod y rhain o fudd i ddatblygiad cyfannol y plant?</p> <p>Trafod pwysigrwydd a rhoi enghreifftiau o adnoddau a deunyddiau dysgu a allai gynnwys e.e. rhyngweithio ag oedolion a chyfoedion, llyfrau, adnoddau digidol, nwyddau cartref ac adnoddau naturiol ac ati.</p> <p>Canolbwyntio ar y dechnoleg amrywiol sydd ar gael at ddibenion dysgu a thrafod yr effeithiau cadarnhaol a negyddol ar iechyd, llesiant a datblygiad plant.</p>	<p>Enghreifftiau o amrywiaeth o adnoddau a deunyddiau dysgu.</p> <p>Delweddau o amgylcheddau dysgu cadarnhaol i'w trafod.</p> <p>Cynllun gweithgareddau.</p>	<p>Ymchwiliad ar gyfer grŵp o ddysgwyr i ddatblygu syniadau gan ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth sydd ganddyn nhw yn barod o amgylcheddau chwarae dan do ac awyr agored eu lleoliadau.</p> <p>Creu diagram corryn drwy drafod.</p> <p>Rhoi adborth i'r dosbarth a gwerthuso manteision yr amgylcheddau a drafodwyd.</p> <p>Sesiwn holi ac ateb yn y dosbarth.</p> <p>Trafod a rhoi adborth ar effaith technoleg ar ddysgu cyfannol.</p> <p>Datblygu gweithgaredd yn seiliedig ar adnodd penodol ac esbonio sut y gall y gweithgaredd hwn gefnogi datblygiad cyfannol.</p>

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
		<p>Gweithgaredd: Tasg grŵp. Trafod a rhoi adborth ar effaith technoleg ar ddysgu cyfannol e.e. y rhyngwyd a dyfeisiau symudol, rhaglenni cyfrifiadurol rhyngweithiol, apiau a theganau digidol ac ati.</p> <p>Gweithgaredd: Tasg unigol. Datblygu gweithgaredd yn seiliedig ar adnodd penodol o'u dewis ac esbonio sut y gall y gweithgaredd hwn gefnogi datblygiad cyfannol plant o fewn ystod oedran benodol.</p>		
<p>Grŵp Gorfodol 2 Uned 216</p> <p>Deilliant dysgu 2 MPA 2.2</p>	<p>8</p>	<p>Ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio gweithgareddau ar gyfer plant ar wahanol gyfnodau yn eu datblygiad, mewn gwahanol leoliadau.</p> <p>Trafod â dysgwyr yr amrywiaeth o ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio gweithgareddau, gan gynnwys addasrwydd a chynaliadwyedd gweithgareddau ac adnoddau wrth gynllunio ar gyfer oedranau, cyfnodau ac anghenion gwahanol.</p> <p>Trosolwg o reoliadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a disgwyliadau ar gyfer gofal plant a reoleiddir. Trafod â dysgwyr y Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n cael eu defnyddio wrth arolygu lleoliadau sy'n darparu gofal plant i blant hyd at 12 oed.</p> <p>Trafod manylion sy'n ymwneud â'r dewis o weithgareddau fel cost, technoleg, amgylchedd, hyblygrwydd, parhad. Gan roi sylw cyson hefyd i risg – asesu manteision a chymarebau staffio yn y lleoliad. Sicrhau bod gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed yn cael eu bodloni.</p> <p>Trafod â dysgwyr yr agweddau ar ddarpariaeth barhaus ac estynedig er mwyn datblygu dealltwriaeth o ddiben a gwerth yr agweddau hyn mewn lleoliadau gwahanol.</p>	<p>Templed ar gyfer darpariaeth chwarae barhaus i gwblhau cynllun gweithgareddau.</p> <p>Enghreifftiau o adnoddau ar gyfer darpariaeth barhaus.</p> <p>Crynodeb i'r dysgwyr o Safonau Gofynnol Cenedlaethol AGC ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed.</p>	<p>Datblygu cynllun gweithgareddau ar gyfer darpariaeth chwarae barhaus gan ystyried yr holl ffactorau a drafodwyd.</p>

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
		<p>Rhoi enghreifftiau o amrywiaeth o adnoddau sy'n briodol i blant gan ganolbwyntio ar yr ardal/maes dysgu a ddewiswyd, trafod sut mae'r adnoddau yn rhan o ddarpariaeth barhaus ynghyd â chyfleoedd i herio neu ymestyn y rhain ymhellach.</p> <p>Gweithgaredd: Dysgwyr i ddatblygu cynllun gweithgareddau ar gyfer darpariaeth chwarae barhaus sy'n cynnwys syniadau am nifer o adnoddau sy'n addas i blant yn y blynyddoedd cynnar. Mae angen i'r cynllun ddangos eu bod wedi ystyried darpariaeth estynedig er mwyn cefnogi plant i ddatblygu eu sgiliau meddwl ymhellach a meithrin sgiliau newydd drwy adnoddau, cwestiynau neu awgrymiadau. Gall dysgwyr ddewis cynllun priodol y gallan nhw ei roi ar waith yn eu lleoliad eu hunain, sy'n gweddu i grŵp oedran y plant a phlant sydd ar gyfnodau gwahanol yn eu datblygiad gan ddefnyddio eu profiad a'u gwybodaeth eu hunain o'u hamgylchedd a'u hadnoddau gan ystyried ffactorau diogelwch yn ôl yr angen. Gellid seilio enghraifft o'r cynllun gweithgareddau ar gyfer darpariaeth chwarae barhaus ar y penawdau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Maes – pa faes/ardal dysgu? • Nod ac amcan – beth mae'r gweithgaredd yn ei ddatblygu a pham? <p>Ymestyn – pa agweddau ar y nod y gellir eu datblygu er mwyn cynnig her ychwanegol?</p>		

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
<p>Grŵp Gorfodol 2 Uned 216</p> <p>Deilliant dysgu 2</p> <p>MPA 2.3</p>	<p>9</p>	<p>Y dylanwad y gall lleoliadau addysg a gofal plant gwahanol ei gael ar ddatblygiad plentyn.</p> <p>Dylai dysgwyr wybod a deall yr amrywiaeth o leoliadau gwahanol a fyddai'n gallu hybu a chefnogi iechyd, llesiant a datblygiad plant a sut y gall lleoliadau gwahanol ddiwallu anghenion plant unigol a'u teulu/gofalwyr yn y ffordd orau.</p> <p>Dylai lleoliadau gofal plant gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwarchodwr plant • lleoliadau Dechrau'n Deg • crèche • meithrinfa ddydd • (cylch) meithrin • gofal y tu allan i'r ysgol (clwb brecwast, clwb ar ôl ysgol, clwb gwyliau) • cylch chwarae. <p>Dylai lleoliadau addysgol gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • darpariaeth ysgol statudol, 3-18 oed • darpariaeth amgen • lleoliadau anghenion ychwanegol • modelau amgen, e.e. addysg montessori, Reggio Emilia, Steiner • ysgolion ffydd • addysg breifat • addysg yn y cartref. <p>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dylanwad mae pob lleoliad yn ei gael ar ddatblygiad plant.</p> <p>Archwilio dealltwriaeth dysgwyr o leoliadau statudol, anstatudol a phreifat. Trafod yr amrywiaeth o leoliadau gofal plant ac addysgol</p>	<p>Dangos delweddau gweledol/fideos i ddysgwyr fel eu bod yn meithrin dealltwriaeth o amrywiaeth o leoliadau gofal plant ac addysgol, ar gyfer plant o oeddrannau gwahanol a phlant ag anghenion gwahanol.</p>	<p>Dysgwyr i ddatblygu tabl sy'n dangos rôl pob lleoliad a'i ddylanwad ar ddatblygiad plant.</p> <p>Sesiwn holi ac ateb yn y dosbarth.</p>

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
		<p>Ileoliadau a meithrin gwybodaeth am eu gwerth wrth gefnogi a hybu iechyd, llesiant a datblygiad plant, a pherthnasedd gwahanol leoliadau i weddu i anghenion plant unigol a'u teuluoedd/gofalwyr.</p> <p>Gweithgaredd: Gwaith grŵp Dysgwyr i ddatblygu tabl sy'n dangos rôl pob lleoliad a'i ddylanwad ar ddatblygiad plant. Canolbwyntio ar effaith iechyd, llesiant a dylanwadau datblygiadol. Rhoi adborth i'r dosbarth drwy drafodaethau a syniadau.</p>		
<p>Grŵp Gorfodol 2 Uned 216</p> <p>Deilliant dysgu 3</p> <p>MPA 3.1</p>	10	<p>Gwerth ac effaith Deddfwriaeth, rheoliadau, polisiau a mentrau llywodraeth cyfredol yng Nghymru.</p> <p>Trafod gwerth ac effaith Deddfwriaeth (cyfraith statudol), rheoliadau a mentrau allweddol sydd ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru.</p> <p>Datblygu trafodaethau ar bob maes er mwyn datblygu gwybodaeth y dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dechrau'n Deg – Manteision gofal plant Dechrau'n Deg i'r plant hynny y mae angen cefnogaeth arnyn nhw fwyaf mewn ardaloedd difreintiedig ac ati. • Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) – Effaith datblygiad cynaliadwy drwy wella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol plant ac ati. • Egwyddorion Craidd GIG Cymru (2016) – Gwerth codi safonau a morâl yn y GIG drwy wella gofal, llesiant, partneriaethau, myfyrio a gwerthfawrogi pawb ac ati. • Saith Nod Craidd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru – Yr effaith a gaiff penderfyniadau ar flaenoriaethau a rennir ac amcanion cenedlaethol sy'n seiliedig ar werthoedd CCUHP e.e. plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, y gallu i fanteisio ar gyfleoedd dysgu cynhwysfawr ac ati. 	<p>Rhoi taflenni ffeithiau/crynodeb i ddysgwyr ar Ddeddfwriaeth allweddol sy'n nodi'r rheoliadau a'r mentrau sydd ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru.</p> <p>Rhoi amrywiaeth o bolisiau sylfaenol a syml cyfredol i ddysgwyr, y mae'n rhaid iddyn nhw gynnwys: rheoli ymddygiad, bwlio, amddiffyn plant, cyfrinachedd, cyfleoedd cyfartal, ac iechyd a diogelwch.</p>	<p>Gwerth/manteision y Ddeddfwriaeth, y rheoliadau a'r mentrau a drafodwyd er mwyn meithrin dealltwriaeth o wybodaeth allweddol.</p> <p>Cylchdroi dysgwyr mewn grwpiau er mwyn creu timau dysgu ar y cyd yn seiliedig ar bolisiau a gweithdrefnau.</p> <p>Sesiwn holi ac ateb yn y dosbarth.</p> <p>Ymchwilio i bolisiau a gweithdrefnau cyfredol a chofnodi canfyddiadau drwy drafodaethau ac ymateb i amrywiaeth o gwestiynau perthnasol.</p>

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
		<ul style="list-style-type: none"> • Y safonau gofynnol cenedlaethol – Gwerth ac effaith sicrhau bod y ddarpariaeth gofal yn bwrpasol ac yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol. • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) – Gwerth rhoi llais a rheolaeth i blant, manteision cynyddu gwasanaethau ataliol ac ymyriadau cynnar, cefnogi llesiant a chyd-gynhyrchu gwasanaethau ac ati. • Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) – Gwerth ac effaith rhoi hawliau dynol i blant sy'n cydnabod pob plentyn a sut y mae'n rhaid i oedolion a llywodraethau gydweithio er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hamddiffyn ac ati. <p>Dylai dysgwyr wybod y bydd unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth, y rheoliadau, y polisiâu ac unrhyw fentrau llywodraeth cyfredol yng Nghymru yn ystod oes y fanyleb yn disodli'r ddeddfwriaeth, y rheoliadau, y polisiâu a'r mentrau blaenorol.</p> <p>Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pa werth/manteision mae'r ddeddfwriaeth, y rheoliadau a'r mentrau a drafodwyd yn eu cynnig i blant a gweithwyr gofal plant? • Pa newidiadau rydych chi wedi'u gweld mewn ymarfer sy'n seiliedig ar y ddeddfwriaeth, y rheoliadau a'r mentrau a drafodwyd? <p>Trafod effaith deddfwriaeth, rheoliadau a mentrau llywodraeth cyfredol drwy sesiynau holi ac ateb a thrafodaethau dosbarth e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • manteision/effaith darparu lleoedd ychwanegol i blant • newidiadau i gymarebau • y cynnydd yn nifer y plant sy'n cyrraedd cerrig milltir • y pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg • newidiadau i bolisiâu, gweithdrefnau ac ymarfer. 		

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
		<p>Gweithgaredd: Creu diagram corryn ar gyfer pob deddfwriaeth, rheoliad a menter a drafodwyd a datblygu syniadau mewn grwpiau am sut maen nhw'n ceisio bod o fudd i leoliadau plant/cael effaith arnynt. Defnyddio ffynonellau priodol a chyfredol ar gyfer ymatebion grŵp manwl.</p> <p>Trafod â dysgwyr rôl a diben polisiâu a'r math o bolisiâu a gweithdrefnau sydd eu hangen mewn lleoliadau er mwyn mynd i'r afael â deddfwriaeth a rheoliadau. Trafod pwysigrwydd cael gweithdrefnau canllaw clir er mwyn bodloni polisiâu, safonau, disgwyliadau wrth geisio cyflawni nodau cyffredinol y lleoliad.</p> <p>Rhoi amrywiaeth o bolisiâu sylfaenol a syml cyfredol i ddysgwyr, y mae'n rhaid iddyn nhw gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rheoli ymddygiad • bwlio • amddiffyn plant • cyfrinachedd • cyfle cyfartal • iechyd a diogelwch. <p>Gweithgaredd: Ymchwiliad grŵp. Rhoi un polisi ar bob bwrdd a symud y dysgwyr o gwmpas mewn grwpiau er mwyn creu timau dysgu ar y cyd. Dysgwyr i ymchwilio i bolisiâu a gweithdrefnau cyfredol a chofnodi canfyddiadau drwy drafodaethau ac ymateb i amrywiaeth o gwestiynau perthnasol. Trafodaeth dosbarth i ddilyn, er mwyn datblygu cyd-ddealltwriaeth a syniadau yn seiliedig ar adborth pob grŵp. Gall hyn lywio ymchwiliadau pob grŵp ymhellach.</p>		

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
		<p>Cwestiynau dosbarth enghreifftiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Beth yw prif nodau'r polisi? Sut y byddai'r polisi hwn yn effeithio ar blant/o fudd iddynt? Beth yw manteision y gweithdrefnau sydd ar waith i blant a gweithwyr gofal plant? <p>Pa ddeddfwriaeth, rheoliadau a mentrau llywodraeth cyfredol rydych chi wedi'u gweld yn y polisi?</p>		
<p>Grŵp Gorfodol 2 Uned 216</p> <p>Deilliant dysgu 4</p> <p>MPA 4.1</p>	<p>11</p>	<p>Rôl a manteision gwasanaethau statudol, gwirfoddol a thrydydd parti y mae plant a'u teuluoedd/gofalwyr yn cael mynediad atyn nhw i gefnogi ieuchyd a llesiant.</p> <p>Trafod amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i blant a'u teuluoedd/gofalwyr e.e. gwasanaethau awdurdodau lleol, ieuchyd, gwirfoddol a thrydydd parti, yn ogystal â rôl y teulu/gofalwyr ac ati, a datblygu dealltwriaeth dysgwyr ynghylch sut y gallan nhw gael mynediad at y gwasanaethau hyn e.e. atgyfeiriad uniongyrchol, hunanatgyfeiriad ac atgyfeiriad proffesiynol neu atgyfeiriad gan drydydd parti.</p> <p>Enghreifftiau o wasanaethau awdurdodau lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> gwasanaethau addysg Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd cymdeithasau tai gwasanaethau tai gwasanaethau hamdden gwasanaethau cymdeithasol gwasanaethau ieuenctid. 	<p>Mynediad i'r rhyngrwyd.</p> <p>Amrywiaeth o daflenni ffeithiau/taflenni ar wahanol fathau o wasanaethau i gefnogi dysgwyr i ddysgu am y gefnogaeth a ddarperir ganddyn nhw a'i ddeall.</p>	<p>Dysgwyr yn ymchwilio i rôl y gweithwyr/gweithwyr proffesiynol gwahanol sy'n rhan o'r gwasanaethau a sut y gall gwahanol wasanaethau fod o fudd i blant (0-19) a'u teuluoedd/gofalwyr. Creu tabl gan ddefnyddio'r penawdau a awgrymir.</p> <p>Sesiwn holi ac ateb yn y dosbarth.</p>

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
		<p>Enghreifftiau o wasanaethau iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Proffesiynau iechyd cysylltiedig • CAMHS: (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) • canolfannau iechyd • clinig babanod • clinig cynllunio teulu • practis deintyddol • hosbisau • ysbytai • optegwyr. <p>Enghreifftiau o sefydliadau gwirfoddol a thrydydd parti:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Barnardo's • Childline • Cyngor Ar Bopeth • Gingerbread • Mencap • Mind • NSPCC • Relate • mudiadau crefyddol. <p>Cefnogaeth ychwanegol a ddarperir gan deulu/gofalwyr gan gynnwys ffrindiau a chymdogion.</p> <p>Gweithgaredd: Drwy weithgaredd ymchwil mewn grŵp, ymchwilio i rôl y gweithwyr/gweithwyr proffesiynol gwahanol sy'n rhan o'r gwasanaethau a sut y gall plant (0-19) a'u teuluoedd fanteisio ar wahanol wasanaethau. Rhaid i bob grŵp ddewis gwasanaethau gwahanol.</p>		

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
		<p>Creu tabl gan ddefnyddio'r penawdau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Math o wasanaeth – e.e. gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol • Rôl gweithiwr proffesiynol – e.e. gweithiwr cymdeithasol • Cefnogaeth/budd a gyflwynir - e.e. diogelu a hybu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Darparu amrywiaeth o wasanaethau i blant a'u rhieni/gofalwyr, yn eu cartref eu hunain fel arfer. • Dulliau atgyfeirio – e.e. gall atgyfeiriadau gael eu gwneud gan unrhyw un sy'n ymwneud â'r unigolyn drwy weithwyr proffesiynol, atgyfeirio uniongyrchol, atgyfeirio gan drydydd parti neu hunanatgyfeirio. 		

Maes Testun	Wythnos	Rhaglen Astudio	Adnoddau	Awgrymiadau ar gyfer gwaith cartref / gweithgareddau asesu
<p>Grŵp Gorfodol 2 Uned 216</p> <p>Deilliant dysgu 4</p> <p>MPA 4.2</p>	12	<p>Sut y gall rhanddeiliaid allweddol gefnogi plant (a'u teuluoedd/gofalwyr) sy'n byw ag amrywiaeth o gyflyrau a/neu anghenion ychwanegol.</p> <p>Datblygu trafodaeth ar gyflyrau amrywiol ac anghenion ychwanegol e.e. datblygiad iaith a lleferydd, awtistiaeth, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, anawsterau emosiynol/ymddygiadol ac ati. Trafod yr amrywiaeth o randdeiliaid allweddol sy'n cyfrannu drwy weithwyr gofal proffesiynol amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol, er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o werth y gofal ar y cyd e.e. cyfrifoldebau proffesiynol, cydweithio, cydsyniad i rannu gwybodaeth (GDPR) ac ati, y mae gwasanaethau amrywiol yn ei ddarparu er mwyn cefnogi plant/teuluoedd.</p> <p>Gweithgaredd: Ymchwiliad grŵp.</p> <p>Defnyddio amrywiaeth o astudiaethau achos o anghenion penodol er mwyn cefnogi dysgwyr i ddeall effaith byw gydag amrywiaeth o gyflyrau a/neu anghenion ychwanegol.</p> <p>Gan ddefnyddio enghreifftiau o rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol amrywiol e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) • mudiadau elusennol • cwyselwyr • deietegydd • athrawon Saesneg fel iaith ychwanegol • seicolegydd plant/addysgol • meddyg teulu • ymwelydd iechyd • therapydd galwedigaethol • ffisiotherapydd • gweithwyr cymdeithasol • therapydd lleferydd ac iaith ac ati. <p>Cwestiwn dosbarth enghreifftiol:</p> <p>Ar sail y plentyn yn eich astudiaeth achos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pa weithwyr gofal proffesiynol amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol fyddai'n cefnogi anghenion y plentyn? <p>Rhowch resymau dilys dros eich dewisiadau i esbonio'r manteision i'r plentyn/teulu. Rhowch adborth mewn grwpiau i'r dosbarth.</p>	<p>Astudiaethau achos o amrywiaeth o gyflyrau penodol/a nghenion ychwanegol.</p> <p>Engheifftiau o rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol amrywiol.</p>	<p>Defnyddio amrywiaeth o astudiaethau achos o anghenion penodol er mwyn cefnogi dysgwyr i ddeall effaith byw gydag amrywiaeth o gyflyrau a/neu anghenion ychwanegol.</p> <p>Sesiwn holi ac ateb yn y dosbarth.</p>

4.3 Paratoi at yr arholiad ysgrifenedig

Asesir yr uned hon yn allanol drwy arholiad 75 munud sy'n cyfrannu 10% at y cymhwyster cyffredinol. Gellir sefyll yr arholiad fel arholiad ar sgrin neu bapur ysgrifenedig. Mae'r arholiad wedi'i strwythuro fel bod modd asesu holl gynnwys y pwnc drwy'r pedwar deiliant dysgu. Mae pob cwestiwn yn orfodol a bydd cymysgedd o gwestiynau sy'n gofyn am atebion byr a chwestiynau sy'n gofyn am atebion hirach drwy gydol y papur. Bydd pob cwestiwn yn cael ei roi yng nghyd-destun senario benodol a'i rannu'n is-gwestiynau. Disgwylir i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth am ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant a'i chymhwyso i bob sefyllfa a gyflwynir iddynt.

Drwy gydol y cwrs, dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr weithio drwy amrywiaeth eang o gwestiynau arholiad yn y dosbarth ac fel gwaith cartref. Dylai ymgeiswyr fod yn gyfarwydd â gosodiad y papur arholiad a gofynion y gwahanol fathau o gwestiynau, megis: atebion byr ac atebion ysgrifennu strwythuredig ac estynedig. Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer ateb y cwestiynau sy'n gofyn am ysgrifennu estynedig. Dylai dysgwyr ymglyfarwyddo â'r berfau gorchymyn sydd i'w gweld yn adran 3 o'r ddogfen hon. Mae angen iddynt ddeall y mathau o atebion y mae disgwyl iddyn nhw eu rhoi i bob berf gorchymyn er mwyn sicrhau eu bod yn ateb gofynion y cwestiwn yn llawn.

Rhaid i ddysgwyr ddeall y cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer yr atebion hirach, lle mae gofyn iddyn nhw gyflwyno gwybodaeth a'i chefnogi â rhesymau a thrafodaeth. Mae'r cynllun marcio, a ddefnyddir ochr yn ochr â'r papur arholiad, yn helpu dysgwyr i ddeall sut mae marciau'n cael eu dyfarnu, a dyfnder y wybodaeth sydd ei hangen.

Mae papur a chynllun marcio enghreifftiol ar gyfer Uned 216 ar gael ar y wefan. Yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol, ar gyfer rhai cwestiynau, mae'r cynllun marcio yn dweud "Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, rhowch farc am unrhyw ymatebion perthnasol eraill". Gwneir hyn er mwyn sicrhau y gall dysgwyr gael marciau am yr hyn maen nhw'n ei wybod. Mae'n dda bod dysgwyr yn gwybod hyn, er mwyn sicrhau nad ydyn nhw'n teimlo eu bod wedi'u cyfyngu a'u bod yn gallu cynnig atebion addas y tu hwnt i'r hyn a addysgwyd iddyn nhw.

Dylai athrawon roi amser i ddysgwyr adolygu ar ddiwedd y cwrs. Gallai'r rhestr wirio ganlynol fod yn ddefnyddiol i ddysgwyr.

Dylai dysgwyr:

- ddeall y termau sy'n cael eu defnyddio'n aml mewn papurau arholiad
- dilyn y cyfarwyddiadau sy'n cael eu rhoi ar flaen y papur arholiad
- darllen pob cwestiwn yn ofalus ac amlygu neu danlinellu geiriau allweddol
- osgoi defnyddio pwyntiau bwled gan fod hyn yn tueddu i gynhyrchu atebion cyfyngedig (tebyg i restr) – mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ehangu ar eu hatebion ac yn rhoi ffaith, pwynt, esboniad neu reswm ac enghreifftiau da; mae atebion un gair yn dderbyniol ond dim ond os yw'r cwestiwn yn gofyn am y math hwn o ateb
- edrych ar nifer y marciau sydd wedi'u dyrannu i bob cwestiwn a gwneud yn siŵr bod yr atebion yn cynnwys digon o wybodaeth
- sicrhau bod eu hatebion yn berthnasol
- sicrhau bod eu hysgrifen yn ddarllenadwy ac osgoi defnyddio 'iaith negeseuon testun'
- cadw llygad ar yr amser – dylid gadael digon o amser i ddarllen drwy'r papur yn ofalus er mwyn sicrhau bod pob cwestiwn wedi'i ateb yn llawn.

5. Sut mae Uned 216 yn cysylltu ag elfen ymarfer Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant a'r Craidd

System Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori			
Unedau Craidd	Unedau ymarfer	Uned 216	Enghreifftio
<p>Uned 002 Iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad</p> <p>1.8 yr amrywiaeth o asiantaethau a gweithwyr a fyddai'n gallu ymwneud â chefnogi iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant</p> <p>1.18 pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar a gweithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant</p> <p>1.19 rôl perthnasoedd a rhwydweithiau cefnogi wrth gefnogi llesiant plant</p>	<p>Uned 200 (hefyd yn gorgyffwrdd â'r cymhwyster Craidd).</p> <p>Anghenion cefnogi ychwanegol</p>	<p>MPA4.2 Sut y gall rhanddeiliaid allweddol gefnogi plant (a'u teuluoedd/gofalwyr) sy'n byw ag amrywiaeth o gyflyrau a/neu anghenion ychwanegol.</p>	<p>Mwy o bwyslais ar wasanaethau cefnogi yn y cymhwyster hwn, felly mae'n edrych ar fwy na'r ffordd orau o sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni mewn lleoliad.</p> <p>Mae'r pwyslais ar weithwyr proffesiynol allweddol.</p>
<p>Uned 003 Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant</p> <p>2.2 amrywiaeth a rolau gweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ym meysydd y blynyddoedd cynnar a gofal plant</p> <p>2.3 pwysigrwydd gwaith amlasiantaethol</p> <p>1.14 sut y gall gweithwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant gadw cyfrinachedd</p> <p>1.15 amgylchiadau pan fo'n rhaid trosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol ac i bwy y dylid trosglwyddo'r wybodaeth honno</p>			<p>Dylai dysgwyr ddeall gwerth rhannu gofal, gofal amlasiantaethol a thîm amlddisgyblaethol i blant a'u teuluoedd/gofalwyr.</p> <p>Dylai dysgwyr ddeall GDPR a rhannu gwybodaeth gyda rhanddeiliaid allweddol.</p>

<p>Uned 001 Egwyddorion a gwerthoedd gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant</p> <p>1.1 Deddfwriaeth, polisiau cenedlaethol, canllawiau, safonau a fframweithiau sy'n sail i ofal, dysgu a datblygiad plant</p> <p>1.2 Yr egwyddorion sy'n sail i ymarfer mewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant</p> <p>1.3 Pam mae'r egwyddorion hyn yn bwysig i ofal, dysgu a datblygiad plant a sut maen nhw'n cefnogi ymarfer</p> <p>Uned 003 Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant</p> <p>1.1 cyfrifoldebau ac atebolrwyddau proffesiynol yng nghyd-destun fframweithiau deddfwriaethol perthnasol, safonau, codau ymarfer proffesiynol</p> <p>1.2 pwysigrwydd cydnabod cyfyngiadau rolau a chyfrifoldebau a chadw atyn nhw</p> <p>1.6 pwrpasau polisiau a gweithdrefnau ar gyfer ymarfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant</p> <p>1.7 sut i ddysgu am bolisiau a gweithdrefnau a'u dilyn</p>	<p>Deddfwriaeth.</p>	<p>MPA3.1 Rôl, gwerth ac effaith deddfwriaeth, rheoliadau, polisiau a mentrau llywodraeth cyfredol yng Nghymru.</p>	<p>Effaith deddfwriaeth ar bob math o ddarpariaeth ac yn ymarferol: gofal plant ac iechyd plant.</p> <p>Mae'n ymestyn y profiadau ymarferol a geir, yn enwedig am fod lleoliadau iechyd plant yn llai cyffredin.</p> <p>Dylai dysgwyr ddeall sut mae deddfwriaeth, rheoliadau a mentrau llywodraeth yn cael eu cymhwyso a'u rhoi ar waith yn ymarferol</p>
---	----------------------	---	--

<p>Uned 002 Iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad</p> <p>1.1 y gwahanol gyfnodau o ddatblygiad plant (0-19 oed)</p> <p>1.2 yr amrywiaeth o ffactorau a fyddai'n gallu effeithio ar iechyd, llesiant a datblygiad personol, corfforol, cymdeithasol ac emosiynol plant a'r effaith mae hyn yn gallu ei chael ar iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant</p> <p>6.4 sut i ofalu am groen, gwallt a dannedd plant</p>	<p>Fffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad.</p>	<p>1.1 Cyfnodau a phatrymau cyffredinol datblygiad corfforol, deallusol (gwybyddol), iaith, emosiynol a chymdeithasol plant o adeg cenhedlu hyd at 19 oed.</p>	<p>Fffactorau nad ydyn nhw'n cael eu haddysgu'n uniongyrchol, mae hyn yn ychwanegol. Bydd dysgwyr yn gallu cyfeirio at ffactorau wrth ddadansoddi a myfyrio pam nad yw cerrig milltir yn cael eu cyrraedd o bosibl.</p> <p>Dylai dysgwyr ddeall cerrig milltir deintyddol, cylchedd pen, clyw, taldra a phwysau, y synhwyrau a'r golwg ac effaith y rhain ar ddatblygiad corfforol.</p>
<p>Uned 002 Iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad</p> <p>1.1 y gwahanol gyfnodau o ddatblygiad plant (0-19 oed)</p> <p>1.2 yr amrywiaeth o ffactorau a fyddai'n gallu effeithio ar iechyd, llesiant a datblygiad personol, corfforol, cymdeithasol ac emosiynol plant a'r effaith mae hyn yn gallu ei chael ar iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant</p> <p>1.10 sut mae meysydd cwricwlwm yn cefnogi datblygiad cyfannol plant</p> <p>1.15 sut mae datblygiad yn cael ei gefnogi gan brofiadau dysgu</p> <p>1.11 pwysigrwydd cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon, llawn mwynhad i lesiant a datblygiad twf deallusol, corfforol ac emosiynol</p>	<p>Uned 201 Cefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol (0-8).</p>	<p>MPA1.6 Natur gyfannol datblygiad plant 0-19 oed.</p>	<p>0-19, felly mae angen dealltwriaeth ehangach a'r gallu i gysylltu â gweithgareddau ar gyfer y rhai dros 8 oed.</p> <p>Dylai dysgwyr ddeall nad yw datblygiad yn rhywbeth sy'n digwydd ar ei ben ei hun a'r dull cyfannol o ddatblygu.</p>

<p>1.9 y cysylltiadau rhwng twf deallusol, corfforol ac emosiynol a sut i gefnogi eu datblygiad</p> <p>1.7 yr hyn sydd ei angen ar blant i ddysgu, datblygu ac aros yn iach – yn gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol</p>			
<p>Uned 002 Iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad</p> <p>3.4 y gwahanol fathau o chwarae a'u manteision</p>	<p>Uned 201 – cefnogi chwarae, dysgu, twf a datblygiad Mathau o chwarae</p>	<p>Chwarae – cyfnodau chwarae MPA 1.5</p>	<p>Ffocws gwahanol – Ymarfer a Craidd yw mathau o chwarae. Uned 216 yw cyfnodau chwarae – dilyniant</p>
<p>Uned 002 Iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad</p> <p>2.2 nodweddion amgylchedd cadarnhaol</p> <p>2.3 y ffordd y gall yr amgylchedd gefnogi datblygiad cyfannol plant</p> <p>2.4 y ffordd y gall yr amgylchedd gefnogi datblygiad plant yn unol â fframweithiau cwricwlwm a meysydd cwricwlwm</p> <p>2.5 pwysigrwydd sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar, yn feithringar, yn ddiogel, yn lân, yn llawn ysgogiad ac yn ystyried anghenion, diddordebau a dewisiadau plant</p> <p>3.9 sut i gynnwys plant wrth greu gwahanol fathau o fannau chwarae</p>	<p>206 – Cefnogi dysgu a datblygiad cyfannol drwy feysydd Cwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar (3-7 oed).</p>	<p>MPA 2.2 – sut y gall adnoddau helpu datblygiad cyfannol plant.</p>	<p>Pob adnodd/deunydd dysgu – nid dim ond y rhai yn y lleoliad gwaith. Ehangach – nid dim ond cwricwlwm y blynyddoedd cynnar. Mae angen i ddysgwyr ddeall ystyr darpariaeth barhaus a darpariaeth estynedig mewn lleoliad gofal plant a'r gwahaniaeth rhyngddyn nhw. Yr amrywiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar weithgareddau cynllunio ac addasu'r amgylchedd.</p>

Grŵp Opsiwn A			
<p>Uned 002 Iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad</p> <p>1.8 yr amrywiaeth o asiantaethau a gweithwyr a fyddai'n gallu ymwneud â chefnogi iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant</p> <p>Uned 004 – Ymarfer Proffesiynol fel gweithiwr blynyddoedd cynnar a gofal plant</p> <p>2.2 amrywiaeth a rolau gweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ym meysydd y blynyddoedd cynnar a gofal plant</p>	<p>Rôl a manteision darparu gofal plant a gwasanaethau cefnogi i:</p> <p>Uned 204: plant 0-2 oed</p> <p>Uned 205: plant 2-3 oed</p> <p>Uned 206: plant 3-7 oed</p>	<p>MPA2.3 Y dylanwad posibl y gall lleoliadau addysg a gofal plant gwahanol ei gael ar ddatblygiad plentyn.</p>	<p>0-19, felly mae angen dealltwriaeth ehangach. Bydd lleoliadau ôl-8 oed yn cael eu cynnwys.</p> <p>Mae'r pwyslais ar ba leoliad sy'n diwallu anghenion gwahanol blant/eu teuluoedd/gofalwyr orau.</p> <p>Mae hefyd yn ymdrin â mentrau, arferion mewn amgylcheddau gwahanol y byddai dysgwyr ond yn eu profi yn ymarferol mewn perthynas â lleoliad(au) gwaith.</p> <p>Dylai dysgwyr ddeall yr amrywiaeth o leoliadau gofal plant sydd ar gael ar gyfer yr ystod oedran gan gynnwys ei bwrpas, mynediad ato a chyfyngiadau oedran.</p> <p>Dylai ddysgwyr feddu ar ddealltwriaeth o fentrau llywodraeth cyfredol fel dechrau'n deg a'u heffaith ar iechyd a llesiant plant.</p>
<p>Uned 002 Iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad</p> <p>1.1 y gwahanol gyfnodau o ddatblygiad plant (0-19 oed) (datblygiad emosiynol yn unig)</p> <p>1.4 beth yw ystyr y term 'ymlyniad' a gallu disgrifio pam ei fod yn rhan bwysig o</p>	<p>Uned 204:Cefnogi bondio ac ymlyniad i blant 0-2 oed.</p> <p>Uned 205: Cefnogi bondio ac ymlyniad i blant 2-3 oed.</p>	<p>Bondio. Ymlyniad. Gwydnwch.</p> <p>MPA1.4 Cyfnodau a phatrymau cyffredinol datblygiad emosiynol.</p>	<p>Dim ond babanod a phlant bach yn Uned 201 plant 2-3 oed yn 205. plant 3-7 oed yn 206.</p>

<p>ddatblygiad a gallu plant i ffurfio perthnasoedd</p> <p>1.5 beth yw ystyr y term 'gwydnwch' a gallu disgrifio pam ei fod yn bwysig i lesiant a datblygiad plant</p> <p>1.3 profiadau andwyol mewn plentynod a sut mae'r rhain yn gallu effeithio ar iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant</p>	<p>Uned 206: Cefnogi ymlyniad a gwydnwch i blant 3-7 oed.</p>	<p>Rôl bondio ac ymlyniad i gefnogi hunan-barch, annibyniaeth a sgiliau cymdeithasol.</p> <p>Gwydnwch: rheoli emosiynau deallusrwydd emosiynol ymdeimlad o'r hunan.</p>	<p>Bydd Uned 216 yn ymestyn hyn i blant 8 oed neu'n hŷn a bydd yn canolbwyntio ar wydnwch ac ymlyniadau newydd e.e. glasged (<i>puberty</i>) ac ati.</p> <p>Dylai dysgwyr ddeall arwyddion a symptomau anhwylderau ymlyniad a sut mae'r rhain yn gallu effeithio ar ddatblygiad emosiynol.</p>
Unedau Dewisol			
<p>Uned 002 Iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad</p> <p>1.1 cyfnodau gwahanol datblygiad plentyn (0-19 oed) (lleferydd a chyfathrebu yn unig)</p> <p>4.1 pwysigrwydd iaith, lleferydd a chyfathrebu i lesiant, dysgu a datblygiad plant</p>	<p>207 – datblygiad iaith – gan gefnogi hyn gyda Chyfnodau o gaffael iaith, dwyieithrwydd ac ati.</p>	<p>MPA 1.3 datblygiad lleferydd.</p>	<p>Gwybodaeth a dealltwriaeth o sut a pham mae lleferydd yn datblygu rhwng 0 a 19 oed.</p>
<p>Uned 002 Iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad</p> <p>1.2 y gwahanol gyfnodau o ddatblygiad plant (0-19 oed) (datblygiad cymdeithasol yn unig)</p> <p>3.4 Mathau gwahanol o chwarae a'u manteision</p> <p>3.8 sut mae plant yn gallu defnyddio chwarae i fynegi emosiwn, ofn, gorbryder neu gopiö ymddygiad maen nhw wedi'i weld</p>	<p>310 Rheoli ymddygiad.</p>	<p>MPA 1.5: datblygiad cymdeithasol.</p>	<p>Sgiliau cymdeithasol i ryngweithio rhwng 0 a 19 oed. Ymddygiad moesol ym mhob amgylchedd nid mewn lleoliad gwaith Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant yn unig.</p> <p>Dylai dysgwyr allu cysylltu chwarae a datblygiad cymdeithasol.</p>

<p>Uned 002 Iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad</p> <p>1.8 yr amrywiaeth o asiantaethau a gweithwyr a fyddai'n gallu ymwneud â chefnogi iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant</p> <p>1.18 pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar a gweithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad plant</p> <p>1.19 rôl perthnasoedd a rhwydweithiau cefnogi wrth gefnogi llesiant plant</p> <p>Uned 003 Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant</p> <p>2.2 amrywiaeth a rolau gweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ym meysydd y blynyddoedd cynnar a gofal plant</p> <p>2.3 pwysigrwydd gwaith amlasiantaethol</p> <p>1.14 sut mae gweithwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn gallu cadw hyder</p> <p>1.15 amgylchiadau pan fo'n rhaid trosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol ac i bwy y dylid trosglwyddo'r wybodaeth honno</p>	<p>Unedau iechyd penodol 208-210, 312</p>	<p>MPA4.2 Sut gall rhanddeiliaid allweddol gefnogi plant (a'u teuluoedd/gofalwyr) sy'n byw gydag amrywiaeth o gyflyrau a/neu anghenion ychwanegol.</p>	<p>Ymdrinnir ag anghenion ychwanegol a chyflyrau iechyd ond mae'r cynnwys yn edrych mwy ar sut gall plant a theuluoedd gael eu cefnogi yn hytrach na sut gall plant gael eu cefnogi gan weithwyr gofal plant mewn lleoliad.</p>
---	---	--	---

6. Rhestr Termau

Cam-drin	Caiff cam-drin ei ddiffinio fel unrhyw weithred sy'n achosi niwed neu anaf bwriadol i berson arall. Gall plant gael eu cam-drin mewn llawer o ffyrdd, gan gynnwys: cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol, esgeulustod a cham-drin emosiynol.
Atebolrwydd	Pan fo person neu sefydliad yn gyfrifol am yr hyn maen nhw'n ei wneud a bod disgwyl iddyn nhw roi rheswm boddhaol neu dderbyniol dros yr hyn maen nhw'n ei wneud.
Damwain (iechyd a diogelwch)	Digwyddiad annisgwyl neu ddigwyddiad heb ei gynllunio a fyddai'n gallu arwain at anaf neu sefyllfa annymunol.
Caffael iaith	Y broses o ddysgu neu ddatblygu sgil neu allu.
Gweithgareddau a phrofiadau	Gweithgareddau chwarae, hamdden a dysgu sy'n gweddu i ddewisiadau a galluoedd y plentyn ac yn diwallu ei anghenion.
Gofal aciwt (iechyd)	Gofal iechyd yw pan fo claf yn cael triniaeth weithredol a thymor byr ar ôl salwch neu anaf neu wrth iddo ymadfer ar ôl llawdriniaeth.
Rhoi meddyginiaeth	Rhoi a chofnodi meddyginiaeth gan sicrhau bod y 'pum peth cywir' yn cael eu defnyddio, er mwyn lleihau camgymeriadau a niwed. Y claf cywir, y cyffur cywir, y dos cywir, y ffordd gywir a'r amser cywir.
Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod (Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod)	Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod yn cyfeirio at ddigwyddiadau negyddol neu brofiadau trawmatig sydd wedi digwydd ac sy'n gallu cael effaith tymor hir ar iechyd a llesiant plant.
Eiriolaeth	Mae eiriolwr plant yn cefnogi plentyn ac yn cynnig cyngor iddo. Pwrpas eiriolaeth yw galluogi plant i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau'n deg ac arfer eu hawliau dynol.
Honedig	Lle mae cyhuddiad o euogrwydd neu ddigwyddiad yn cael ei wneud, heb brawf i gadarnhau bod y datganiad a wnaed yn wir.
Gweithiwr Iechyd Proffesiynol Cysylltiedig	Mae gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig yn cynnwys amrywiaeth eang o rolau gofal iechyd proffesiynol e.e. ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol ac ati.
Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol	Rôl y cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol yw goruchwyllo sut mae'r polisi anghenion addysgol arbennig ac anabledau yn cael ei roi ar waith o ddydd i ddydd a chydlynu'r ddarpariaeth sydd ar gael i blant ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau.
Arfarnu	Mae arfarnu yn cyfeirio at y broses o asesu rhywbeth neu rywun; gwneud dyfarniad neu werthusiad.
Dull (cyfathrebu)	Ffordd o ddelio â sefyllfa neu broblem.

Asesu angen	Y broses o ganfod beth yw anghenion unigolyn.
Damcaniaeth ymlyniad	Damcaniaeth yw ymlyniad a ddatblygwyd gan seicolegwyr i esbonio sut mae plentyn yn rhyngweithio ag oedolion ac yn ffurfio perthnasoedd, mae'n gysylltiedig â ffurfio perthnasoedd emosiynol, diogel a chyson.
Agwedd	Ffordd o feddwl neu deimlo am rywbeth sy'n gallu bod yn gred neu'n ffordd o leisio barn.
Rhwystrau i ddysgu	Gall hyn gynnwys unrhyw beth sy'n atal plentyn rhag gallu dysgu hyd eithaf ei allu. Gallen nhw fod yn gysylltiedig â thlodi, camdriniaeth, cyfleoedd, yr amgylchedd ac ati.
Ymddygiad	Dulliau ymddygiad cadarnhaol, dull gweithredu ymddygiad cadarnhaol.
Bondio	Mae'r bond rhwng rhiant/gofalwr a phlentyn yn hollbwysig o ran twf a datblygiad y plentyn drwy wella ansawdd bywyd y plentyn, rhyngweithio cadarnhaol a chyfathrebu.
Terfynau (ymddygiad)	Mae terfynau ym maes rheoli ymddygiad yn cyfeirio at reolau, canllawiau neu ddisgwyliadau derbyniol sy'n cyfyngu person i ymddwyn mewn ffordd benodol a rhesymol.
Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed (CAMHS)	Gwasanaethau arbenigol a ddarperir gan y GIG i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed sy'n profi problemau ymddygiadol neu emosiynol fel iselder, anawsterau bwyta a gorbryder.
Gofalu am blant	Goruchwyllo un plentyn neu fwy gan ddiwallu eu hanghenion cyfannol ym mhob agwedd ar eu twf a'u datblygiad.
Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)	Mae AGC yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.
Dull plentyn-ganolog	Mae'r dull hwn yn annog plant i gymryd yr awenau o ran eu dysgu drwy chwarae ac arbrofi. Mae plant yn cymryd cyfrifoldeb am yr hyn y byddan nhw'n edrych arno ac yn dysgu amdano.
Cod ymarfer ar gyfer gofal plant	Cod proffesiynol i ofalwyr plant yw'r cod ymarfer hwn, er mwyn amddiffyn plant rhag camfantais a chamdriniaeth a gwerthfawrogi a pharchu pob plentyn fel unigolyn.
Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol	Y safonau proffesiynol y mae'n rhaid i nyrsys, bydwragedd, gweithwyr nyrsio cysylltiedig a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill eu cynnal er mwyn cofrestru i weithio yn y DU.
Pryder am les plentyn	Mae angen hysbysu eich tîm gofal cymdeithasol plant lleol am seiliau rhesymol dros boeni neu amau bod plentyn yn cael ei niweidio, a fyddai'n gallu bod yn gyson â chamdriniaeth.

Cyfrinachedd	Diogelu gwybodaeth bersonol. Dim ond â'r rhai y mae angen iddyn nhw gael gwybod y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu. Mae cyfrifoldeb moesegol a chyfreithiol hollbwysig wrth weithio gyda phlant a theuluoedd i gadw a diogelu gwybodaeth am unigolion.
Cydsyniad	Mae cydsyniad yn golygu rhoi caniatâd i rywbeth ddigwydd neu gytundeb i wneud rhywbeth.
Ymataliaeth mewn plant	Y gallu i reoli symudiadau'r coluddyn a'r bledren. Gall problemau ymataliaeth ymwneud â gollwng wrin, gwlychu'r gwely a rhwymedd.
Diwylliant	Syniadau, arferion, credoau ac ymddygiad cymdeithasol pobl neu gymdeithas benodol.
Datblygiad plant	Cyflwr penodol o dwf neu gynnydd yn nilyniant y newidiadau cymdeithasol, corfforol, ieithyddol, deallusol ac emosiynol sy'n digwydd mewn plentyn o adeg ei genhedlu, drwy'r llencyndod tan ei fod yn dod yn oedolyn.
Datgelu gwybodaeth	Rhoi gwybod i rywun arall am rywbeth.
Gwahaniaethu	Trin person arall yn wahanol ar sail lliw ei groen, crefydd, rhywioldeb, cefndir ac ati.
Amrywiaeth	Ystod o bethau gwahanol neu wahaniaethau.
Dyletswydd gofal	Cyfrifoldeb moesol neu gyfreithiol i sicrhau diogelwch neu lesiant plant yn eich gofal.
E-ddiogelwch	Diogelwch ar y rhyngwrwyd, seiberddiogelwch neu ddiogelwch ar-lein er mwyn diogelu gwybodaeth breifat a diogelwch personol rhag camfantais neu drosedd.
Adnabod yn gynnar	Mae hyn yn golygu gwerthuso ac ymateb i oedi mewn datblygiad neu blentyn sy'n wynebu risg o fod ag anghenion addysgol arbennig ac anabledd (<i>SEND – Special Educational Needs and Disability</i>).
Addysg y blynyddoedd cynnar	Yn ymwneud â dysgu i blant rhwng 3 a 5 oed.
Empathi tuag at eraill	Y gallu i ddeall teimladau pobl eraill.
Ymgysylltu â dysgu	Mae plant yn ymgysylltu orau pan fyddan nhw yn rhan o'r broses ddysgu eu hunain, ac yn llunio eu hystyr eu hunain, drwy waith dysgu sy'n weithredol, yn ysgogol, yn heriol ac yn gwneud iddyn nhw feddwl.
Amgylcheddau mewn lleoliadau gofal plant	Y ffordd mae manau dan do ac awyr agored yn cael eu trefnu, yr amrywiaeth o adnoddau ac ysgogiadau ar gyfer dysgu sydd ar gael.
Cydraddoldeb	Bod yn gyfartal ag eraill o ran statws, tegwch, cyfleoedd a hawliau dynol.
Moesegol	Egwyddorion a gwerthoedd moesol sy'n ymwneud â gwybod beth sy'n dda neu'n gywir.

Ethos	Cymeriad neu werthoedd sylfaenol person, diwylliant neu strwythur.
Fframwaith dysgu	Cwricwlwm neu gynllun dysgu trefnus sy'n diffinio'r cynnwys a'r safonau y bydd y deilliannau dysgu a'r dulliau asesu yn ymdrin a nhw neu'r hyn sy'n cael ei gyflawni.
Perygl i iechyd a diogelwch	Rhywbeth a allai niweidio person e.e. ysgol, sŵn, llawr gwlyb ac ati.
Gofal iechyd	Llesiant corfforol, cymdeithasol a meddyliol.
Iechyd a diogelwch	Gweithdrefnau a rheoliadau y bwriedir iddyn nhw atal damweiniau mewn amgylcheddau cyhoeddus.
Datblygiad hewristig	Galluogi person i ddarganfod neu ddysgu rhywbeth drosto'i hun.
Datblygiad cyfannol	Mae datblygiad cyfannol plentyn yn cyfeirio at y plentyn cyfan ac mae'n cynnwys yr agweddau corfforol, emosiynol, cymdeithasol, deallusol ac ysbrydol ar ddatblygiad plant.
Hydradu	Mae'n bwysig hydradu'n gyson â hylifau er mwyn rheoli tymheredd y corff, treulio bwyd ac ysgarthu gwastraff, fel bod y corff yn cael mwy o ddŵr yn lle'r dŵr sy'n cael ei gollu wrth chwysu ac mewn wrin.
Imiwneiddio	Un o'r ffyrdd gorau o amddiffyn plant rhag clefydau niweidiol fel y frech goch, clwy'r pennau, llid yr ymennydd ac ati. Imiwneiddio plant drwy raglen o frechiadau i bob plentyn sy'n briodol i'w hoedran er mwyn atal clefydau rhag lledaenu.
Effaith	Dylanwad amlwg.
Digwyddiad (iechyd a diogelwch)	Digwyddiad annisgwyl/rhywbeth sy'n digwydd, ac sy'n gallu bod yn gadarnhaol neu'n negyddol.
Haint (iechyd)	Mae mathau o haint yn cynnwys heintiau ffwngaid, bacterol, firws ac ati. Mae'n cyfeirio at achosion lle mae organebau nad ydynt yn bresennol yn y corff fel arfer yn ymledu ac yn lluosogi.
Pla (iechyd a diogelwch)	Nifer anarferol o fawr o drychfilod neu anifeiliaid. Clefyd parasitig (organeb byw) a achosir gan anifeiliaid e.e. llygod, llau, trogod ac ati.
Mentrau	Rhaglenni neu brojectau penodol a gynhelir er mwyn cyflawni canlyniadau penodol. Mae'n golygu dechrau rhywbeth i wneud gwelliannau.
Gweithiwr allweddol	Mae gweithiwr allweddol yn chwarae rôl y prif ofalwr ac mae ganddo gyfrifoldeb dros blant penodol yn y lleoliad gofal plant, bydd yn gweithio gyda phlant unigol a'u rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau bod anghenion penodol y plentyn o ran gofal ac addysg yn cael eu diwallu.
Trochi ieithyddol	Techneg a ddefnyddir mewn addysg ddwyieithog lle defnyddir dwy iaith i roi cyfarwyddyd ac arweiniad.
Dysgu	Y broses o gaffael gwybodaeth, ymddygiad, sgiliau newydd ac ati. Gwneud synnwyr o bwnc, digwyddiad neu deimlad.

Deddfwriaeth	Cyfraith neu set o gyfreithiau a awgrymir gan y llywodraeth ac sy'n cael eu deddfu'n swyddogol gan y senedd.
Dewisiadau ffordd o fyw	Penderfyniad personol neu ymwybodol ynghylch sut i fyw ac ymddwyn ar sail agwedd, chwaeth, gwerthoedd a diddordebau.
Monitro	Y broses o arsylwi ar gynnydd a'i wirio dros gyfnod o amser.
Symud a chodi a chario	Y broses o godi, gwthio, tynnu a symud cyfarpar neu bobl.
Gwaith amlasiantaethol	Gweithio mewn ffordd integredig gydag ymarferwyr eraill a gweithwyr proffesiynol o sectorau gwahanol i ddarparu ymyriadau cynnar a chefnogi plant a theuluoedd e.e. addysg, gwaith ieuenctid, yr heddlu ac ati.
Gwaith amlddisgyblaethol	Tîm o staff o nifer o gefndiroedd a meysydd arbenigedd gwahanol e.e. seiciatryddion, gweithwyr cymdeithasol ac ati, sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu cydlynu er mwyn cydweithio i gyflawni set o nodau penodol.
Maeth	Y broses o gael egni o fwyd sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd, twf a datblygiad.
Partneriaeth	Y cysylltiad rhwng dau neu fwy o bobl sy'n rhannu'r un nodau ac yn gweithio mewn partneriaeth.
Chwarae	Cymryd rhan mewn gweithgaredd er mwynhad a hamdden a gall y gweithgareddau hyn fod yn ddigymell neu'n rhai a gynlluniwyd ymlaen llaw.
Polisi	Ffordd o weithredu neu egwyddor gweithredu a bennir gan sefydliad.
Dull cadarnhaol	Galluogi unigolion i ddelio'n effeithiol â gofynion a heriau sefyllfaoedd neu amgylcheddau.
Atal	Y weithred o stopio rhywbeth rhag digwydd.
Egwyddorion	Y rheol, y ffordd o weithredu neu'r ymddygiad derbyniedig ar gyfer unigolion.
Gweithdrefn	Cyfres o gamau neu weithredoedd i gyflawni nod neu dasg benodol.
Ymarfer proffesiynol	Gwybodaeth o fewn proffesiwn penodol a chwblhau camau gweithredu sy'n gysylltiedig â dyletswyddau proffesiynol.
Cofnodi gwybodaeth	Y dull o nodi neu ysgrifennu gwybodaeth berthnasol mewn ffordd drefnus.
Atgyfeiriadau	Cyfeirio rhywun at le neu berson arall fel y gellir rhoi gwybodaeth neu gymorth iddo neu gymryd camau gweithredu yn ei gylch.
Myfyrio	Ystyried profiadau ac ystyried newidiadau neu gamau gweithredu er mwyn dysgu'n barhaus.

Gwaith sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd	Pwysigrwydd perthnasoedd rhwng y person a phobl eraill o'i gwmpas, gan ddefnyddio dull gweithredu personol a chydweithredol ac ati.
Gwydnwch	Y gallu i ymadfer yn gyflym ar ôl anawsterau, fel amgylchiadau emosiynol neu amgylchiadau sy'n ymwneud ag iechyd.
Cyfrifoldebau	Y dyletswyddau, y pwerau a'r hawliau cyfreithiol i wneud penderfyniadau hyddysg a gweithredu.
Dull seiliedig ar hawliau	Parchu, amddiffyn a bodloni egwyddorion hawliau dynol.
Risg	Y tebygolrwydd y gallai perygl a nodwyd achosi niwed.
Asesiad budd a risg	Cydbwysu manteision gweithgaredd ag unrhyw risgiau posibl.
Rôl	Swydd a chyfrifoldeb penodol.
Arferion	Mae arferion addysgol, personol, gofal corfforol ac ati yn cynnig cyfleoedd i sicrhau amrywiaeth a chysondeb.
Diogelu	Yn golygu mesurau i amddiffyn iechyd, llesiant a hawliau dynol plant ac oedolion i fyw heb gamdriniaeth, niwed ac esgeulustod.
Amserlen Sgiliau Tyfu	Adnodd sgrinio i asesu cerrig milltir datblygiadol mewn plant.
Cyfnodau datblygu	Yr oedrannau a'r cyfnodau sy'n gysylltiedig â datblygiad plant. Mae plant yn mynd drwy adegau datblygu penodol wrth iddyn nhw dyfu o fod yn fabanod i fod yn oedolion ifanc e.e. genedigaeth i 2 oed.
Cyfnodau chwarae	Damcaniaeth yw cyfnodau chwarae sy'n cael ei rhannu'n gyfnodau chwarae unigol, gwyllo, cyfochrog, cysylltiadol a chydweithredol.
Straen	Teimlo neu brofi gormod o bwysau emosiynol neu feddyliol/teimlo eich bod yn methu ag ymdopi.
Gwaith tîm	Gwaith y mae grŵp yn ei wneud gyda'i gilydd.
Y Cyfnod Sylfaen	Cwricwlwm i blant yng Nghymru sy'n seiliedig ar ganlyniadau dysgu sy'n briodol o safbwynt datblygiadol.
Damcaniaeth	System o syniadau y bwriedir iddyn nhw roi esboniad sy'n seiliedig ar ymchwil neu ragdybiaeth.
Cyfnodau trawsnewid	Newid o un ffurf neu fath i ffurf neu fath arall.
Mathau o chwarae	Mae mathau o chwarae yn cael eu creu drwy amgylcheddau a manau chwarae amrywiol e.e. creadigol, archwiliol, dychmygus ac ati.
Gwerthoedd	Creddoau neu ddelfrydau sy'n cael eu rhannu ynghylch yr hyn sy'n ddymunol neu'n annymunol.

Llesiant	Bod yn gyfforddus, yn hapus neu'n iach.
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Wrth iddyn nhw wneud penderfyniadau, mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol.
Chwythu'r chwiban	Term a ddefnyddir pan fydd gweithiwr yn trosglwyddo gwybodaeth am ddrwgweithredu neu ymarfer anfoesegol.
Gofalwr ifanc	Person ifanc sy'n 18 oed neu'n iau sy'n gyfrifol am ofalu am rywun. Gall fod yn gyfrifol am dasgau yn y cartref a gofal personol ac ati.

7. Deddfwriaeth ddefnyddiol:

Dylai dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth **sylyfaenol** o ddeddfwriaeth allweddol bresennol a sut mae hyn yn sail i waith gweithwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Ymhlith y ddeddfwriaeth, polisiau cenedlaethol, canllawiau, safonau a fframweithiau mae:

- Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r saith nod craidd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru
Y Saith Nod Craidd:
 - cael dechrau teg mewn bywyd (y blynyddoedd cynnar)
 - cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu
 - sicrhau eu bod yn mwynhau'r iechyd gorau posibl a'u bod yn rhydd rhag camdriniaeth, erledigaeth a chamfanteisio
 - yn gallu cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
 - cael eu clywed, eu trin â pharch a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod (yn gallu cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau)
 - sicrhau bod ganddyn nhw gartref a chymuned sy'n cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol
 - osgoi anfantais oherwydd tlodi
- Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
- Y Ddeddf Hawliau Dynol (1998)
- Y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)
- cynllun datblygu 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae
- Cymru – Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae (Llywodraeth Cymru 2014)
- Deddf Plant 1989 a 2004
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- Y nod yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac yn y dyfodol; mae'n hysbysu'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf am eu rhwymedigaeth gyfreithiol i:
 - ystyried effaith tymor hir eu penderfyniadau
 - ceisio atal problemau a gweithio mewn ffordd sy'n fwy cydlynol
 - gweithio gydag unigolion, cymunedau a'i gilydd.
- Mae'n sicrhau am y tro cyntaf bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir weithio mewn ffordd gynaliadwy, gan gynnwys:
 - bodloni egwyddorion datblygu cynaliadwy
 - gosod a chyhoeddi amcanion llesiant
 - gweithio i gyflawni'r saith nod llesiant a nodir yn y Ddeddf.
- Mae rhagor o wybodaeth, animeiddiadau a dogfennau sy'n rhoi amlinelliad o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gael yn <https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethau-r-dyfodol-cymru-2015-canllawiau>.

Dylai dysgwyr wybod a deall diben deddfwriaeth a pholisiau diogelu a sut maen nhw'n dylanwadu ar ofal person-ganolog, gan gynnwys:

- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006.

Mae rhagor o fanylion am ddeddfwriaeth a pholisiau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gael yn <https://www.dysguiechydagofal.cymru/>.

Dylai dysgwyr wybod a deall bod egwyddorion gofal a chefnogaeth yn seiliedig ar y syniad o hawliau dynol. Mae'r rhain yn deillio o ddeddfwriaeth bresennol ac yn disgrifio'r ffordd y dylai darparwyr gofal plant ymddwyn tuag at blant a'u teuluoedd/gofalwyr er mwyn cyflawni eu canlyniadau personol drwy hybu:

- dewis a rheolaeth
- cyfrinachedd
- cydgynhyrchu
- urddas
- dyletswydd gofal
- cyfathrebu effeithiol
- empathi
- cydraddoldeb a chynhwysiant
- nodi ac osgoi arferion annerbyniol
- gofal person-ganolog
- cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol a gwybod pryd mae'n briodol i ddefnyddio arferion cyfyngol
- parch tuag at amrywiaeth a natur unigryw unigolion
- hawliau'r unigolyn: credoau, hunaniaeth, dewisiadau ac anghenion ieithyddol
- diogelu.

8. Adnoddau i Athrawon

Bydd adnoddau ar gael ar gyfer y cymhwyster penodol hwn ar wefan CBAC, ond argymhellir yn gryf eich bod yn defnyddio adnoddau eraill hefyd er mwyn sicrhau bod anghenion eich dysgwyr yn cael eu diwallu.

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) <https://aagic.gig.cymru/> yn chwarae rôl flaenllaw yn y gwaith o addysgu, hyfforddi, datblygu a llunio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru. Mae ei brif swyddogaethau'n cynnwys: addysg a hyfforddiant, datblygu a moderneiddio'r gweithlu, datblygu arweinwyr, cynllunio'r gweithlu'n strategol, gwybodaeth am y gweithlu, gyrfaoedd ac ehangu mynediad.

Ymhlith yr adnoddau defnyddiol eraill mae:

Tassoni P (2010) *Children and Young people's Workforce. Level 3 Diploma*. DU: Heinemann

[https://www.nhs.uk/tools/documents/timelines_js/index.html?project=birth to five](https://www.nhs.uk/tools/documents/timelines_js/index.html?project=birth%20to%20five)

<https://devoncc.sharepoint.com/sites/PublicDocs/ChildSocCare/Fostering/Resources%20and%20Forms/Child%20development%20chart.pdf>

<https://www.chwaraecymru.org.uk/cym/newyddion/848-play-types--new-info-sheet->

<http://www.muddypuddles.com/blog/wp-content/uploads/2016/10/The-Role-of-Play.pdf>

https://www.youtube.com/watch?v=UMV345N_Ys

https://www.youtube.com/watch?v=YzRqV_H0ESk

<https://www.youtube.com/watch?v=B0eoXJM9uB4>

<https://padlet.com>

<https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140828-foundation-phase-observation-and-assessment-2010-activities-en.pdf>

<https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130212do-and-discoveren.pdf>

<https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/f1/61/87/84/5dc84fef896a6a6c7713c0ac/fframwaith-y-cyfnod-sylfaen.pdf>

<https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?skip=1&lang=cy>

<https://www.meithrin.cymru/>

<https://www.montessorisociety.org.uk/>

<https://www.youtube.com/watch?v=cvwpLarbUD8>

http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2012-13/22032013/hsc/eng/unit_1/u1-serv/u1-tocs.htm

<http://www.disabilitywales.org/?lang=cy>

<https://eugdpr.org/>

Ffeithluniau hawdd i'w deall y gellir eu llwytho i lawr sy'n esbonio'r Ddeddf

Llywodraeth Cymru: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

<https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethau-dyfodol-cymru-2015-canllawiau>

Ffeithluniau hawdd i'w deall y gellir eu llwytho i lawr sy'n esbonio'r Ddeddf